# Sut mae defnyddio nodiadau atgoffa ar "iPhone"



Mae’r canllaw hwn ar gyfer yr "iPhone 4S" neu’r "iPhone 4", ond mae’r un egwyddor yn berthnasol i ddefnyddwyr yr "iPhone 5" newydd hefyd.

Fel rhan o ddiweddariad "Apple" yn 2011 i’w system weithredu ffonau symudol (iOS), gallwch nawr osod nodiadau atgoffa i’ch hun gan ddefnyddio’r ap Reminders.

Yn wahanol i nifer o apiau eraill ‘rhestr pethau i’w gwneud’, sydd ond yn caniatáu i chi drefnu eich tasgau yn ôl terfynau amser neu flaenoriaeth, mae ap Reminders Apple hefyd yn caniatáu i chi osod rhybuddion a fydd yn ymddangos pan fyddwch chi’n cyrraedd neu’n gadael rhywle penodol, fel cartref neu dŷ ffrind.

Gall defnyddwyr "iPhone 4S" hefyd ddefnyddio meddalwedd adnabod llais "Apple", "Siri", i osod nodiadau atgoffa hefyd.

**Bydd angen y canlynol arnoch chi:**

- dyfais "iOS" gydag "iOS 5" (iPhone, iPod, iPad)

**Dilynwch ein canllaw cam-wrth-gam i osod rhybuddion gan ddefnyddio’r ap Reminders**

**Cam 1:** Tapiwch yr ap **Reminders** ar eich "iPhone".




**Cam 2:** Bydd yr ap Reminders yn agor nawr. Tapiwch y symbol **+** yn ochr dde uchaf y sgrin.





**Cam 3:** Bydd cyrchwr yn dechrau fflachio i ddangos eich bod yn gallu mewnbynnu testun. Defnyddiwch fysellfwrdd yr iPhone i deipio beth bynnag yw natur eich nodyn atgoffa. Cliciwch ar **Done** pan fyddwch chi wedi gorffen.





**Cam 4:** Bydd y dasg yn ymddangos nawr gyda blwch gwag ar y chwith. Tapiwch ar yr enw rydych wedi'i roi ar gyfer eich tasg, sef 'Feed the cat' yn yr enghraifft hon, i ychwanegu gwybodaeth arall, er enghraifft, pryd hoffech chi gael eich atgoffa.




**Cam 5:** Nawr gallwch ddewis sut hoffech gael eich atgoffa. Cliciwch ar **Remind Me**.




**Cam 6:** Dewiswch y dyddiad a’r amser neu’r lleoliad yr hoffech iddynt sbarduno eich nodyn atgoffa a thapiwch **Done** pan fyddwch chi wedi gorffen.




Bydd nodyn atgoffa'n ymddangos, fel y gofynnwyd, i'ch atgoffa o'ch tasg.  Os ydych chi wedi sefydlu gwasanaeth cysoni iCloud Apple ar unrhyw ddyfais "iOS" arall, byddwch yn cael eich atgoffa o'ch tasgau ar y dyfeisiau eraill hynny hefyd.

Ariennir gan
**Lywodraeth Cymru**
Funded by
**Welsh Government**

**Next steps**

- [Sut mae cysylltu â wifi]
- [Sut mae anfon e-bost]

- Sut mae cyflymu'ch cysylltiad â’r rhyngrwyd
- Sut mae defnyddio bysellfwrdd cyfrifiadur
- Sut mae cysylltu â’r rhyngrwyd

How do digital skills change lives?

Find out about Digital Inclusion

---

Digital Unite

0800 228 9272

du@digitalunite.com

Get in touch

Privacy policy

Terms of use

Cookie policy

Our learning platforms

Digital Champions Network

Inspire




## Our newsletter

Research, resources, insights and offers.